

Diogelu Hawliau Plant

Ein hymateb i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Helo



Mae gan bob plentyn hawliau, ni waeth pwy ydyn nhw. Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).



Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r CCUHP. Fe wnaethom ni basio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r gyfraith hon yn golygu bod rhaid i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- ystyried hawliau plant ym mhopeth maen nhw'n ei wneud
- hyrwyddo'r CCUHP i bawb yng Nghymru.

Gwirio hawliau plant

Mae yna Bwyllgor ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n grŵp o 18 o bobl o bob cwr o'r byd. Maen nhw'n edrych i fyny ar sut mae gwledydd ledled y byd yn parhau hawliau plant.



Bob pum mlynedd mae'r DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn siarad â'r Pwyllgor am y cynnydd rydym ni'n ei wneud ar hawliau plant.



Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwrandao ar blant ac yn edrych ar adroddiadau ganddynt. Cynhyrchodd grŵp o blant a phobl ifanc o fenter Cymru Ifanc adroddiad ac ymweld â'r Pwyllgor yng Ngenefa yn ôl ym mis Chwefror 2023. Fe wnaethom nhw siarad â nhw am faterion pwysig sydd o bwys i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Gallwch ddarllen [Adroddiad Cymru Ifanc i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) yma.



i Cymru Ifanc — grŵp o blant a phobl ifanc sy'n helpu Llywodraeth Cymru drwy ddweud wrthyn nhw beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Yna ysgrifennodd y Pwyllgor adroddiad gyda rhestr o'r pethau maen nhw am i ni eu gwneud i wella, amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant — **eu Hadroddiad Sylwadau Cloi**. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma. ➔



Dyma ein hymateb i'r adroddiad a sut y byddwn ni'n parhau i ddiogelu hawliau plant.



Y chwe maes blaenoriaeth

Dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig fod yna 6 maes blaenoriaeth mae angen i'r DU ganolbwyntio arnynt:



Atal gwahaniaethu

i **Gwahaniaethu** — pan fydd rhywun yn cael ei drin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw.



Atal camdriniaeth, esgeulustod, a chamfanteisio a cham-drin rhywiol



Cefnogi plant sy'n cael eu hamddifadu o amgylchedd teuluol



Cefnogi iechyd meddwl



Cefnogi plant sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mudwyr



Cyfiawnder plant

i **Cyfiawnder** — cael eich trin yn deg.

Dywedodd Adroddiad **Cymru Ifanc** mai rhai o'r meysydd pwysicaf i blant ar draws Cymru yw:

Costau byw



Iechyd Meddwl a Lles



Caethiwed a Chamddefnyddio Sylweddau



Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant



Mae gennym ni lawer o ddeddfau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Cymru
- Canllawiau 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb'
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Hawliau Plant
- Siarter Rhianta Corfforaethol — er mwyn sicrhau bod plant sydd â phrofiad o ofal yn cael eu hawliau
- Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol
- Deddf Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Cynllun Gweithredu LHDTTC+ i Gymru
- Strategaeth Tlodi Plant
- Cenedl Noddfa
- Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018.





1. Camau i Lywodraethau

Dylem wneud cymaint ag y gallwn i hyrwyddo a diogelu hawliau plant.



Beth rydym ni'n ei wneud: 

Ein gwaith a'n cyfreithiau

Byddwn ni yn:

- sicrhau ein bod yn talu 'sylw dyledus' i'r CCUHP wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc
- sicrhau ein bod yn meddwl am sut y bydd penderfyniadau yn effeithio ar hawliau plant. Byddwn yn cyhoeddi Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant i ddangos sut.
- sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnwys yn ein holl waith
- gweithio gyda phob llywodraeth yn y DU i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu.

Arian ac adnoddau

Byddwn ni yn:

- sicrhau ein bod yn meddwl am hawliau plant wrth wneud penderfyniadau gwario
- parhau i gynnwys a gwrando ar blant.

Amddiffyn pob plentyn

Byddwn yn sicrhau bod pawb o dan 18 oed yn cael eu trin fel plentyn.

Gwybodaeth

Byddwn ni yn:

- casglu gwybodaeth am sut mae pethau fel tlodi yn effeithio ar fywydau plant a'i defnyddio i wneud penderfyniadau
- datblygu ffyrdd i ysgolion gasglu gwybodaeth am iechyd a lles plant
- rhannu gwybodaeth ac adroddiadau fel y gellir eu defnyddio i ddiogelu hawliau plant.

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod pawb yn gwybod am hawliau plant
- hyrwyddo hawliau plant drwy ymgyrchoedd a digwyddiadau
- hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol i bawb sy'n gweithio gyda phlant fel athrawon ac ymarferwyr.

Cyfiawnder a gwneud pethau'n deg

Byddwn ni yn:

- parhau i sicrhau bod plant yn cael eu trin yn deg a'u bod nhw'n cael eu hawliau
- sicrhau bod pob gwasanaeth yn diogelu hawliau plant
- sicrhau bod gan blant eiriolwr i'w helpu i gael eu clywed
- sicrhau bod plant yn cael eu clywed a'u cynnwys mewn penderfyniadau.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 4 Dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod eich hawliau chi'n cael eu parchu.

Erthygl 42 Dylai pawb wybod am y CCUHP.

Erthygl 44 Rhaid i'r Llywodraeth adrodd ar sut maen nhw'n amddiffyn eich hawliau.





2. Camau i gefnogi'r 4 egwyddor gyffredinol



Mae'r egwyddorion cyffredinol yn ein helpu i ddeall yr holl hawliau eraill yn y CCUHP.

Beth rydym ni'n ei wneud: 

Atal gwahaniaethu

Byddwn ni yn:

- codi ymwybyddiaeth a'i gwneud yn glir nad yw gwahaniaethu byth yn iawn
- sicrhau bod plant yn gallu cael help os ydynt yn cael eu trin yn annheg
- sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i atal gwahaniaethu
- gwneud Cymru'n lle diogel i bawb — Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol
- Sicrhau bod pawb yn ddiogel, yn cael cymorth ac yn cael eu hawliau, gan gynnwys:
 - Plant Lleiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn, Teithwyr Roma
 - plant sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mudwyr
 - plant ag anableddau
 - plant sydd â phrofiad o ofal
 - cenedl LHDTC+ sy'n gyfeillgar i blant yn Ewrop — Cynllun Gweithredu LHDTC+
 - plant gyda rhiant yn y carchar
- defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru i addysgu bod gwahaniaethu yn anghywir a helpu dysgwyr i barchu eraill
- atal bwlio a sicrhau bod ysgolion yn llefydd diogel i bawb
- gwneud popeth o fewn ein gallu i atal troseddau casineb yng Nghymru
- sicrhau nad oes neb yn cael ei ddal yn ôl oherwydd eu mislif ac yn gallu cael cynhyrchion mislif am ddim
- sicrhau bod pob plentyn yn cael ei glywed.

Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 2 Mae gan bob plentyn yr hawliau hyn.

Erthygl 3 Mae'n rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i mi.

Erthygl 6 Dylwn i gael fy nghefnogi i fyw a thyfu.

Erthygl 12 Mae gen i'r hawl i gael gwrandawriad a'm cymryd o ddiffr.



Gwneud beth sydd orau i'r plentyn

Byddwn ni yn:

- sicrhau ein bod yn rhoi budd gorau plant yn gyntaf pan fyddwn yn gwneud pethau sy'n effeithio arnynt gan gynnwys ym maes diogelu, cyfiawnder ieuencid, addysg a gwasanaethau plant
- sicrhau ein bod ni (a gweithwyr proffesiynol eraill) yn gwirio sut mae penderfyniadau yn effeithio ar fywydau a hawliau plant.

Cefnogi teuluoedd fel bod llai o blant yn mynd i ofal

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi plant i aros gyda'u teulu, cyhyd â'i fod yn ddiogel.

Atal trais domestig

Byddwn ni yn:

- gweithio i leihau trais yn erbyn menywod a merched
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael hyfforddiant ac yn gwybod sut i gefnogi plant a theuluoedd
- hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach.

Cadw plant yn ddiogel rhag masnachu

Byddwn yn gweithio gydag eraill i gadw plant yn ddiogel rhag caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Cymru — Cenedl Noddfa

Byddwn ni yn:

- gwneud Cymru'n gartref diogel i bawb sy'n dod i fyw yma
- gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau gorau plant yn cael eu rhoi yn gyntaf i'r rhai sy'n dod i Gymru

Yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad

Cyfiawnder ieuencid — cadw pobl ifanc yn ddiogel

Byddwn ni yn:

- dod o hyd i ffyrdd o atal plant rhag cael eu cadw yn nalfa'r heddlu dros nos
- sicrhau bod plant yn cael eu lleoli mewn llety diogel, ei fod mor agos at eu teulu a'u cymuned â phosibl.

Atal Hunanladdiad a hunan-niweidio

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod plant yn cael yr holl gymorth iechyd meddwl maen nhw ei angen
- sicrhau bod plant sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio yn cael cefnogaeth, ar yr adeg iawn.

Parch at farn y plentyn

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod gan blant yr wybodaeth a'r gefnogaeth maen nhw eu hangen i gymryd rhan
- sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau
- hyrwyddo hyfforddiant hawliau plant ar-lein
- sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gwrando ar blant
- sicrhau y gall plant gael cefnogaeth gan eiriolwr i'w helpu i gael eu clywed.





3. Camau i gefnogi hawliau a rhyddid plant



Mae gan bob plentyn hawliau a rhyddid sy'n perthyn iddyn nhw o'u genedigaeth. Does dim rhaid iddyn nhw wneud dim i'w cael nhw.

Beth rydym ni'n ei wneud: 

Hawl i hunaniaeth

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod gan bob plentyn ryddid i fynegi pwy ydyn nhw a'r hunaniaeth maen nhw'n ei dewis.
- atal gwahaniaethu a bwlio
- sicrhau bod pob plentyn yn cael ei glywed a'i fod yn cael ei gynnwys mewn penderfyniadau.

Hunaniaeth — y pethau sy'n eich gwneud chi yn chi, a sut rydych chi'n gweld eich hun — bywyd teuluol, diwylliant, credoau, gallu, ethnigrwydd, rhywedd a llawer mwy.

Rhyddid mynegiant a chrefydd

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod plant yn rhydd i ddewis a mynegi eu crefydd neu gredoau
- sicrhau nad yw cyfreithiau a pholisïau yng Nghymru yn trin rhai plant yn annheg oherwydd eu credoau
- gweithio gyda Llywodraeth y DU i amddiffyn rhyddid mynegiant a chrefydd plant.

Addoli

Byddwn yn sicrhau nad yw plant yn cael eu gorfodi i ymuno ag addoliad yr ysgol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ond mae gan blant yr hawl i ddysgu am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE), ni all rhieni atal hyn.

Ymuno â grwpiau a phrotestio heddychlon

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am blismona. Byddwn yn gweithio gyda nhw i sicrhau nad yw deddfau a pholisïau'r heddlu yn dileu'r rhyddid hwn.

Byddwn yn sicrhau bod gan blant y rhyddid i ymuno â grwpiau a siarad am bethau sy'n bwysig iddyn nhw fel newid hinsawdd.

Preifatrwydd

Byddwn yn sicrhau bod yr heddlu'n dilyn rheolau stopio a chwilio ar gyfer plant.

Cael gwybodaeth ar-lein

Byddwn ni yn:

- parhau i gefnogi plant i fynd ar-lein a defnyddio gwybodaeth
- sicrhau nad yw plant yn cael eu dal yn ôl oherwydd tlodi
- sicrhau bod plant yn gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 7 Mae gen i hawl i enw ac i berthyn i wlad.

Erthygl 8 Mae gen i hawl i hunaniaeth, cenedligrwydd a pherthynas deuluol.

Erthygl 13 Mae gen i'r hawl i ddarganfod a rhannu gwybodaeth.

Erthygl 14 Mae gen i'r hawl i gael fy meddyliau a'm credoau fy hun ac i ddewis fy nghrefydd gydag arweiniad fy rhieni.

Erthygl 15 Mae gen i'r hawl i gyfarfod â ffrindiau ac i ymuno â grwpiau.

Erthygl 16 Mae gen i'r hawl i gadw rhai pethau'n breifat.

Erthygl 17 Mae gen i'r hawl i gael gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd, cyn belled â'i fod yn ddiogel.



4. Camau i gadw plant yn ddiogel rhag trais a niwed




Beth rydym ni'n ei wneud: 

Niweidio plant

Byddwn ni yn:

- sicrhau na all oedolion ffrwyno plant oni bai nad oes unrhyw ffordd arall o'u cadw'n ddiogel
- codi ymwybyddiaeth o'r rheolau a siarad â phlant pan fyddwn yn eu newid.

 Ffrwyno — dal plentyn mewn ffyrdd sy'n eu hatal rhag symud.

Smacio

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod pawb yn dilyn y gyfraith ar gosb gorfforol
- codi ymwybyddiaeth o'r gyfraith gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc
- sicrhau bod rhieni'n cael cymorth i ddatblygu eu sgiliau magu plant.

Camdriniaeth, esgeulustod, cam-fanteisio a cham-drin rhywiol

Byddwn ni yn:

- gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw plant yn ddiogel
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod sut i nodi pan fydd plentyn mewn perygl, a gweithredu
- sicrhau bod pawb yn cael hyfforddiant amddiffyn plant
- codi ymwybyddiaeth o effeithiau trawma ar fywydau plant
- sicrhau bod plant sydd wedi cael eu trin yn wael yn cael cymorth i wella.


Diogel rhag trais a cham-drin domestig

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod menywod a merched yn ddiogel rhag trais a niwed.

Arferion niweidiol

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth bod arferion niweidiol yn erbyn y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys:

- arferion niweidiol sy'n brifo merched — priodasau dan orfod, anffurfio organau cenedlu menywod, a thrais yn erbyn menywod
- arferion niweidiol sy'n brifo pobl LHDCRha+ — therapiau trosi.

 LHDCRha+ — lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwiar, cwestiynu, rhyngryw, neu arywiol.

Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 19 Mae gen i'r hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy mriфо neu fy nhrin yn wael.

Erthygl 24 Mae gen i'r hawl i ofal iechyd o ansawdd da, i ddŵr glân a bwyd da.

Erthygl 28 Mae gen i hawl i gael addysg.

Erthygl 34 Ni ddylai unrhyw gyffwrdd â phlant mewn ffyrdd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist.

Erthygl 37 Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu boenus.

Erthygl 39 Mae gen i'r hawl i gael help os ydw i wedi cael fy mriфо, fy esgeuluso neu fy nhrin yn wael.



5. Camau i gefnogi teulu a gofalwyr eraill



Beth rydym ni'n ei wneud: 

Cefnogi teuluoedd


Byddwn ni yn:

- dod o hyd i ffyrdd o helpu teuluoedd
- ariannu gwasanaethau gofal plant fel bod lleoedd yn rhad ac am ddim neu'n fwy fforddiadwy
- sicrhau bod teuluoedd yn gwybod am yr holl gymorth y gallant ei gael
- helpu teuluoedd gyda phlant iau, gyda rhaglenni fel Dechrau'n Deg.

Gofalwyr ifanc

Byddwn ni yn:

- parhau i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc fel eu bod yn cael y cymorth maen nhw ei angen
- hyrwyddo'r Cerdyn Adnabod Gofalwr Ifanc.

 **Gofalwyr ifanc** — gofalu am rywun yn eu teulu sy'n sâl neu'n anabl.



Plant ag anghenion addysgol ychwanegol

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth i ffynnu
- sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn penderfyniadau.



Plant ag anableddau

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod plant ag anableddau yn cael cymorth i ffynnu
- parhau i wella gwasanaethau a chynyddu hyfforddiant
- sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn penderfyniadau.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 5 Dylai'r Llywodraeth barchu hawl eich teulu i'ch helpu i wybod am eich hawliau.

Erthygl 9 Mae gen i hawl i fyw gyda theulu sy'n gofalu amdana i.

Erthygl 10 Mae gen i'r hawl i weld fy nheulu os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall.

Erthygl 11 Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghymryd allan o'r wlad yn anghyfreithlon.

Erthygl 18 Mae gen i'r hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yn bosib.

Erthygl 20 Mae gen i'r hawl i amddiffyniad arbennig a help os na alla i fyw gyda fy nheulu fy hun.

Erthygl 21 Mae gen i'r hawl i gael y gofal gorau os caf fy mabwysiadu.

Erthygl 23 Os ydw i'n anabl, mae gen i'r hawl i ofal ac addysg arbennig.

Erthygl 25 Os nad ydw i'n byw gyda fy nheulu, dylai pobl barhau i wirio fy mod yn ddiogel ac yn hapus.

Erthygl 27 Mae gen i'r hawl i gael tŷ iawn, bwyd a dillad.



Cefnogi plant mewn gofal

Weithiau ni all plentyn fyw gyda'i deulu oherwydd nad yw'n ddiogel neu na allant ddiwallu ei anghenion. Byddwn ni yn:

- buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n camu mewn yn gynnar ac yn cefnogi teuluoedd fel bod angen i lai o blant fynd i ofal — cyn belled â'i fod yn ddiogel
- sicrhau bod plant mewn gofal yn cael y cymorth cywir
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio fel tîm ac yn rhoi'r gefnogaeth gywir i blant, ar yr adeg iawn
- sicrhau bod plant wrth wraidd pob penderfyniad
- sicrhau bod plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yn cael eu hawliau ac yn cael cymorth
- sicrhau nad oes rhaid i blant ag anghenion cymhleth adael Cymru i gael yr help maen nhw ei angen
- hyrwyddo ein Siarter Rhianta Corfforaethol a'r CCUHP
- gwrando ar blant a'u cynnwys mewn cynlluniau a phenderfyniadau am eu bywydau.

Cefnogi teuluoedd maeth

Byddwn ni yn:

- parhau â'r Cynllun Pan Fydda i'n Barod, fel y gall pobl ifanc aros mewn teuluoedd maeth nes eu bod yn 21 oed
- edrych ar ffyrdd i wella'r Cynllun Pan Fydda i'n Barod
- sicrhau bod plant maeth yn cael cymorth iechyd meddwl a lles
- sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael hyfforddiant fel eu bod yn gwybod sut i gefnogi plant yn y ffyrdd gorau
- parhau i wrando a chynnwys plant maeth a gofalwyr mewn penderfyniadau.

Cefnogi pobl sy'n gadael gofal

Byddwn ni yn:

- edrych i weld a wnaeth y Peilot Incwm Sylfaenol wahaniaeth i fywydau pobl ifanc.



Plant gyda rhiant yn y carchar

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod plant sydd â rhiant yn y carchar yn cael y cymorth maen nhw ei angen
- gweithio gyda'r system gyfiawnder i roi anghenion y plentyn yn gyntaf pan fydd rhiant yn cael ei ddedfrydu
- sicrhau bod plant yn cael cyswllt gyda'u rhiant — cyn belled â'i fod yn ddiogel.



6. Camau i gefnogi iechyd a lles



Beth rydym ni'n ei wneud: 

Iechyd a gwasanaethau iechyd

Byddwn ni yn:

- gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd fel bod bywyd yn decach
- sicrhau bod pob teulu sydd â phlant ifanc yn cael cyswllt ag ymwelydd iechyd
- sicrhau nad oes unrhyw un yn wynebu gwahaniaethu
- sicrhau bod plant sy'n ceisio lloches yn cael cymorth gan wasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl
- sicrhau bod pawb yn gwybod am drawma a sut mae'n effeithio ar fywydau plant
- sicrhau bod plant yn cael cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl
- hybu'r hawl i gael gwybodaeth yn Gymraeg neu ieithoedd eraill os oes angen
- sicrhau bod gwasanaethau hunaniaeth rhywedd ar gael i bobl ifanc
- gweithio gyda'r GIG i leihau amseroedd aros
- gwirio bod y gwasanaethau iechyd yn cefnogi pobl ifanc pan fyddant yn symud i wasanaethau oedolion
- sicrhau bod y gwasanaethau iechyd yn cynnwys plant ac yn gwrandao arnynt wrth wneud penderfyniadau.

Diet a Maeth

Byddwn ni yn:

- hyrwyddo diet iach a ffordd o fyw
- cefnogi teuluoedd ar incwm isel fel y gallant brynu bwydydd iach
- cefnogi ymgyrchoedd fel y Veg Power
- edrych ar newid cyfreithiau fel ein bod yn hyrwyddo dewisiadau iach
- darparu prydau ysgol am ddim a brecwast am ddim.

Bwydo ar y Fron

Byddwn ni yn:

- cyflawni'r rhaglen Gwella Iechyd 1000 Diwrnod Cyntaf
- hyrwyddo manteision bwydo ar y fron a chefnogi mamau.

Newid hinsawdd

Byddwn ni yn:

- diogelu'r amgylchedd fel bod plant yn cael bywydau iach
- lleihau carbon a bod yn sero-net erbyn 2050
- lleihau llygredd aer
- datblygu cyfreithiau newydd i leihau sŵn o amgylch cymunedau
- gweithio gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â newid hinsawdd
- parhau i gynnwys a gwrandao ar blant fel ein bod yn gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 6 Dylwn i gael fy nghefnogi i fyw a thyfu.

Erthygl 18 Mae gen i'r hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yn bosib.

Erthygl 24 Mae gen i'r hawl i ofal iechyd o ansawdd da, i ddŵr glân a bwyd da.

Erthygl 26 Dylai fy nheulu gael yr arian sydd ei angen arnyd nhw i helpu i'm magu.

Erthygl 27 Mae gen i'r hawl i gael tŷ iawn, bwyd a dilad.

Erthygl 33 Dylwn i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus (gan gynnwys unrhyw effeithiau o ddefnydd cyffuriau riant).



Iechyd meddwl

Byddwn ni yn:

- buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n camu mewn yn gynnar i gefnogi plant gyda'r cymorth cywir, ar yr adeg iawn
- gweithio gyda'r GIG i leihau amser aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl
- sicrhau bod gan bawb gefnogaeth i'w hiechyd meddwl, gan gynnwys:
 - plant Du, Asiaidd a Lleihafri foedd Ethnig
 - plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
 - plant sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mudwyr
 - plant anabl
 - plant sydd â phrofiad o ofal
 - plant traws
 - LHDTCIA+
- sicrhau bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg neu'r iaith maen nhw'n ei defnyddio
- parhau i ariannu gwasanaethau yn y gymuned
- sicrhau bod gan ysgolion ddull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol
- sicrhau bod plant yn cael cynnig cymorth gan wasanaethau eiriolaeth
- parhau i wrando ar brofiadau plant a'u barn.

Cefnogi plant ag iechyd meddwl gwael, anhwylderau bwyta a hunan-niweidio.

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gefnogi plant ag iechyd meddwl gwael. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau arbenigol.
- parhau i gefnogi pobl sy'n hunan-niweidio a gwella cefnogaeth i'r rhai sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

Dod yn oedolyn – iechyd y glasoed

Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael y wybodaeth gywir i wneud y canlynol:

- deall peryglon cyffuriau yn anweddu, tybaco ac alcohol
- dysgu am ryw a pherthnasoedd yn y ffyrdd cywir ar gyfer eu hoedran
- deall cynllunio teulu, atal cenhedlu
- dewisiadau rhywiol diogel a diogel.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn trin pobl ifanc â pharch, yn rhoi'r cyngor a'r gefnogaeth gywir.

Camdefnyddio Sylweddau

Byddwn yn sicrhau bod plant yn cael yr holl gymorth maen nhw ei angen i roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau, tybaco, sigarêts neu alcohol.

Safon byw

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am rai penderfyniadau fyddai'n helpu lleihau tlodi. Byddwn yn gweithio gyda nhw i helpu teuluoedd.

Byddwn ni yn:

- gwneud popeth o fewn ein gallu i roi terfyn ar dlodi plant.
- sicrhau bod gan blant le diogel i'w alw'n gartref ac nad ydynt yn dod yn ddi-gartref
- rhoi cymorth ariannol brys drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol
- sicrhau nad yw plant yn cael eu dal yn ôl mewn bywyd oherwydd diffyg arian.



7. Camau i gefnogi addysg a gweithgareddau eraill



Beth rydym ni'n ei wneud: 



Addysg

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd i ddysgu beth bynnag fo'u cefndir
- sicrhau nad yw costau bywyd ysgol — gwisgoedd, tripiâu a phethau eraill — yn atal plant rhag dysgu neu orffen ysgol.
- sicrhau bod teuluoedd ar incwm isel yn cael y grantiau a'r cymorth mae ganddyn nhw hawl iddynt
- cefnogi Ysgolion Cymunedol i weithio gyda gwasanaethau eraill yn y gymuned
- buddsoddi mewn mwy o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd ysgolion i wella lles dysgwyr
- gwella bywyd ysgol a lleihau bwlio
- sicrhau bod gofawyr ifanc yn gwybod am gerdyn Adnabod Gofawyr Ifanc, ac yn cael cymorth i ddysgu
- lleihau absenoldebau a chefnogi dysgwyr i aros yn yr ysgol.

Byddwn hefyd yn sicrhau:

- bod pob plentyn yn dysgu am ei hawliau
- bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg a gyda pharch
- nad oes unrhyw blentyn yn cael ei ffrwyno oni bai mai dyma'r unig ffordd i'w gadw'n ddiogel
- nad oes unrhyw blentyn yn cael ei roi ar ei ben ei hun oni bai mai dyma'r unig ffordd i'w gadw'n ddiogel
- na chaiff unrhyw blentyn ei wahardd o'r ysgol oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol.



Gorffwys, hamdden, a gweithgareddau

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i chwarae a mwynhau gweithgareddau
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn dilyn canllawiau 'Cymru - Gwlad sy'n Gyfeillgar i Chwarae'
- Ceisio lleihau cost teithio cynaliadwy i bawb yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc i hwyluso mynediad at gyfleoedd hamdden, chwarae, diwylliannol ac addysgol.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 28 Mae gen i hawl i gael addysg.

Erthygl 29 Mae gen i hawl i addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, parch at hawliau pobl eraill a'r amgylchedd.

Erthygl 30 Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw.

Erthygl 31 Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae.





8. Camau i gefnogi mesurau diogelu arbennig



Beth rydym ni'n ei wneud: 



Plant sy'n dod o wledydd eraill

Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am fewnfudo. Byddwn yn gweithio gyda nhw fel nad yw cyfreithiau a pholisïau yn trin plant yn annheg ac yn eu hatal rhag dod yma i fyw. Byddwn ni yn:

- sicrhau bod gan bob plentyn sy'n ceisio lloches ei hawliau a'i gefnogaeth i ffynnu
- sicrhau bod plant ar eu pen eu hunain yn cael cefnogaeth gan wasanaethau
- cymryd ymagwedd 'plentyn yn gyntaf, mudwr ail' tuag at gefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches
- sicrhau bod plant yn cael gwybodaeth hawdd ei deall, yn yr iaith maen nhw'n ei defnyddio
- ariannu fforymau a grwpiau sy'n helpu plant i ddweud eu dweud a chael eu clywed.



Masnachu plant

Byddwn ni yn:

- cadw plant yn ddiogel rhag masnachu
 - sicrhau bod plant sydd wedi profi masnachu mewn pobl yn cael cymorth i adfer.
- i Masnachu plant** — pan mae pobl yn mynd â phlant i ffwrdd ac yn eu gorfodi i wneud rhywbeth.



Cyfiawnder plant

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyfiawnder, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid.

Byddwn ni yn:

- sicrhau bod plant yn cael cymorth i'w hatal rhag cymryd rhan mewn trosedd
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn deall bod gan blant hawliau, ni waeth beth maen nhw'n ei wneud
- sicrhau bod llety diogel mor agos â phosibl at gymuned gartref plentyn
- sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu bywydau.



Cysylltiadau â CCUHP:

Erthygl 22 Os ydw i'n ffoadur, mae gen i'r un hawliau â phlant sy'n cael eu geni yn y wlad honno.

Erthygl 30 Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw.

Erthygl 32 Ni ddylwn gael fy ngwneud i wneud gwaith peryglus.

Erthygl 33 Dylwn i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus (gan gynnwys defnydd cyffuriau rhiant).

Erthygl 35 Ni ddylwn gael fy herwgipio (cymryd i ffwrdd), fy ngwerthu na fy masnachu.

Erthygl 36 Mae gen i'r hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag pethau allai niweidio fy natblygiad.

Erthygl 37 Mae gen i'r hawl i beidio cael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu boenus.

Erthygl 39 Mae gen i'r hawl i gael help os ydw i wedi cael fy mrifo, fy esgeuluso neu fy nhrin yn wael.

Erthygl 40 Mae gen i'r hawl i gael cymorth cyfreithiol ac i gael fy nhrin yn deg os ydw i wedi cael fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith.

9. Camau i gefnogi'r Protocolau Dewisol



Ers i'r CCUHP gael ei ysgrifennu, mae'r byd wedi newid ac mae plant yn wynebu risgiau gwahanol. Mae gan y Pwyllgor set ychwanegol o reolau o'r enw Protocolau Dewisol.

Beth rydym ni'n ei wneud: 

Amddiffyn plant rhag cael eu gwerthu, puteindra plant a phornograffi plant

Byddwn ni yn:

- gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod plant yn ddiogel rhag y troseddau hyn
- sicrhau bod plant sy'n dioddef o'r troseddau hyn yn cael cymorth i wella.

Cadw plant yn ddiogel ar-lein

Byddwn ni yn:

- gweithio gyda Llywodraeth y DU i atal cynnwys ar-lein niweidiol a chadw plant yn ddiogel
- sicrhau bod pob plentyn yn gwybod sut i gadw'n ddiogel pan fyddant ar-lein
- hyrwyddo cyngor ac adnoddau Cadw'n Ddiogel Ar-lein i ysgolion a theluoedd
- parhau i weithio gyda'r Internet Watch Foundation (IWF) a chadw plant yn ddiogel
- sicrhau bod plant sy'n dioddef troseddau ar-lein yn cael cymorth i adfer.



Y camau nesaf

Y tro nesaf y bydd y DU yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yw 2030. Tan hynny, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu hawliau plant yng Nghymru.

Diolch am gymryd rhan

Diolch i'r holl adrannau, sefydliadau, partneriaid, Cymru Ifanc a grwpiau eraill a gymerodd ran ac a gyfrannodd at y broses hon.